**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

**National Assembly for Wales**
Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee

Sophie Howe
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

8 Mai 2019

Annwyl Sophie

Efallai eich bod yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ymgynghoriad yn ddiweddar sy'n gofyn am safbwyntiau ar ffyrdd i lenwi'r bwlch llywodraethu amgylcheddol ar ôl Brexit ac yn ystyried egwyddorion amgylcheddol sydd eu hangen i sicrhau safonau amgylcheddol uchel yng Nghymru.

I gyd-fynd â'r ymgynghoriad, mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ('y Pwyllgor') yn cynnal ymchwiliad i egwyddorion a threfniadau llywodraethu amgylcheddol. Mae cylch gorchwyl yr ymchwiliad yn **Atodiad A.** Mae'r gwaith hwn yn adeiladu ar adroddiad y Pwyllgor a gyhoeddwyd y llynedd a wnaeth argymhellion i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar egwyddorion a threfniadau llywodraethu amgylcheddol ar ôl Brexit.

Mae'r ymgynghoriad yn cyfeirio at y strwythurau sefydledig yng Nghymru ar gyfer dwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif, gan gynnwys Archwilydd Cyffredinol Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'n cydnabod, er y bydd y rhain yn parhau i weithredu ar ôl Brexit, "mae gennym gyfle nawr i gryfhau'n trefniadau llywodraethu cenedlaethol a chau'r bwlch goruchwylio [llywodraethu amgylcheddol] a adewir gan Gomisiwn yr UE". Mae'n datgan na ddylai unrhyw gorff goruchwylio newydd wrthdaro â strwythurau presennol, ond yn hytrach eu hategu.

Mae Rhan 3 o'r ymgynghoriad yn gofyn am farn ar y bylchau mewn llywodraethu amgylcheddol ac mae'n cynnwys cynigion ar gyfer rôl, amcanion, cyfansoddiad a swyddogaethau corff newydd i oruchwylio gweithredu cyfreithiau amgylcheddol yng Nghymru. Mae sawl cwestiwn sy'n arwyddocaol i'ch rôl, er enghraifft, mae Cwestiwn 6 yn gofyn "pa rôl ddylai cyrff atebolrwydd ei chwarae mewn strwythur llywodraethu amgylcheddol newydd yng Nghymru".

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddNHAMG@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCCERA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCCERA
0300 200 6565

**Byddai gan y Pwyllgor ddiddordeb yn y canlynol:**

- **eich barn ar y cynigion a amlinellwyd, yn enwedig goblygiadau'r cynigion ar gyfer eich rôl chi a chyflawni eich swyddogaethau, a**

- **lefel yr ymgysylltiad rhwng Llywodraeth Cymru a'ch swyddfa hyd yma i benderfynu sut y gallai eich rôl fod yn rhan o'r trefniadau llywodraethu amgylcheddol newydd.**

Os hoffech roi barn ar unrhyw agweddau eraill ar ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, neu ar unrhyw faterion eraill y cyfeirir atynt yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor, mae croeso i chi wneud hynny.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 5 Mehefin fan bellaf.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr uchod, cysylltwch â'r tîm Clercio ar SeneddNHAMG@cynulliad.cymru.

Yn gywir,



**Mike Hedges AC**

**Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**

Atodiad A

## Cylch gorchwyl

Mae'r Pwyllgor yn gwahodd sylwadau ar y canlynol:

- Bylchau mewn egwyddorion a strwythurau llywodraethu amgylcheddol ar ôl Brexit yng Nghymru ac a yw dadansoddiad Llywodraeth Cymru (yn yr ymgynghoriad) yn nodi'r diffygion yn gywir ac yn gynhwysfawr;
- Cynigion ymgynghori a chwestiynau Llywodraeth Cymru ynghylch yr egwyddorion amgylcheddol, a swyddogaeth/cyfansoddiad/cwmpas y corff llywodraethu arfaethedig; a
- Gwerth a materion ymarferol o gael dull ar y cyd â'r DU o ystyried cynnig Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) Llywodraeth y DU y gallai strwythurau llywodraethu newydd yn Lloegr arfer swyddogaethau'n ehangach ar draws y DU.